Cyngor **Abertawe**
**Swansea** Council

**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor y Rhaglen Chraffu

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mawrth, 18 Mai 2021 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P M Black (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
| --- | --- | --- |
| J E Burtonshaw | E W Fitzgerald | J A Hale |
| D W Helliwell | T J Hennegan | P K Jones |
| W G Lewis | G J Tanner | W G Thomas |
| T M White | | |

**Aelodau Cyfetholedig Statudol:**

D Anderson-Thomas  A Roberts

**Cynghorwyr sy'n Aelodau Cyfetholedig**

| | |
| --- | --- |
| C A Holley | S M Jones |
| P R Hood-Williams | J W Jones |

**Hefyd yn bresennol:**

Y Prif Uwch-arolygydd Trudi Meyrick – Heddlu De Cymru
Yr Uwch-arolygydd Mark Brier – Heddlu De Cymru
Y Cynghorydd Andrea Lewis Dirprwy Arweinydd/Aelod y Cabinet dros Gartrefi, Ynni a Thrawsnewid Gwasanaethau

**Swyddog(ion)**

| | |
| --- | --- |
| Craig Davies | Cyfreithiwr Cyswllt |
| Adam Hill | Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau |
| Kate Jones | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Brij Madahar | Arweinydd y Tîm Craffu |
| Paul Thomas | Rheolwr Partneriaeth Integreiddio Cymunedol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Cynghorwyr sy'n Aelodau Cyfetholedig: L R Jones

---

**66 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

Y Cynghorydd Susan Jones – Cofnod Rhif 70 – Mab yn weithiwr i Heddlu De Cymru

Y Cynghorydd Wendy Lewis - Cofnod Rhif. 70 - Mab yn weithiwr i Heddlu De Cymru

**67 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau.**

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni ddatganwyd pleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

**68 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 13 Ebrill 2021 fel cofnod cywir.

**69 Cwestiynau Gan y Cyhoedd.**

Ni chafwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

**70 Craffu ar Droseddu ac Anhrefn - Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel.**

Daeth cynrychiolwyr o Heddlu De Cymru a'r cyngor i'r cyfarfod er mwyn darparu adroddiad cynnydd ar Bartneriaeth Abertawe Mwy Diogel, a gyd-gadeirir gan y ddau sefydliad, ac ateb cwestiynau.

Tynnodd y Dirprwy Brif Weithredwr sylw at heriau a oedd wedi codi o ganlyniad i'r pandemig. Roedd y pandemig wedi arwain at heriau newydd yn ogystal â chynnydd mewn digwyddiadau domestig, ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â chymdogion a throseddau casineb. Roedd gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth, a adeiladwyd yn ystod y pandemig, wedi bod yn allweddol i ymdrin â'r problemau hynny a byddai'n hanfodol eu cynnal yn y dyfodol.

Darparwyd cyflwyniad a oedd yn cynnwys y canlynol:-

- Cefndir
  - Gweledigaeth y bartneriaeth
  - Diben y bartneriaeth
- Llywodraethu Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel presennol
  - Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus
  - Grŵp Llywio Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel
  - Blaenoriaethau Strategol
- Blaenoriaethau Strategol
  - Trais yn erbyn menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)
  - Camddefnyddio Sylweddau
  - Cymunedau Cryfach
  - Economi'r hwyr a'r nos
  - Monitro troseddau casineb a thensiwn cymunedol
- Taith mewn pandemig
- Pandemig: Hyblygrwydd Ymateb
  - Tîm Gorfodi ar y Cyd – ymrwymiad adnoddau rhwng yr awdurdod lleol a Heddlu De Cymru i edrych ar feysydd o bryderon allweddol megis trwyddedu, safonau masnach a gorfodi materion yn ymwneud â COVID-19 a oedd yn cynnwys gosod tasgau a chydlynu ar y cyd – cyflwynwyd

  dros 1,200 o hysbysiadau o gosb benodol mewn perthynas â gorfodi materion yn ymwneud â COVID-19
  - Grwpiau Datrys Problemau – Datrys problemau ar gyfer pob ardal drwy ddefnyddio’r dull Amcan, Sganio, Dadansoddi, Ymateb ac Asesu (OSARA) e.e. ar gyfer Annifyrrwch yn ymwneud â Beiciau Modur, Gweithwyr Rhyw etc.
  - Prosiectau Cymunedol – e.e. Prosiect yn y Vetch i fynd i'r afael â materion Llinellau Sirol a Throseddoldeb a oedd wedi cynnwys gosod teledu cylch cyfyng mewn ardaloedd allweddol, tocio gordyfiant, bwrw wal i lawr, creu Ardal Gemau Aml-ddefnydd a seddi yn ogystal â datblygu caffi cymunedol.
  - Cyfarfodydd Partneriaeth – Cefnogodd y Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg ar gyfer pobl sy'n ddiamddiffyn ar y stryd (MARAC) dros 60 o unigolion a oedd yn ddigartref a/neu'n cardota gan ddefnyddio ateb mwy cyfannol i ddiwallu anghenion - Datblygu Clybiau Ieuenctid Dros Dro
  - Gwaith Allgymorth – Cafodd ei beryglu yn ystod COVID-19 ond parhaodd y gwaith. Roedd arian ychwanegol wedi'i sicrhau ar gyfer swyddi ychwanegol – gweithgareddau ymgysylltu a gynhaliwyd ym Mharc Cwmdonkin – Cynhaliodd Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru waith ymgysylltu ar ddechrau tanau a thanau mynydd – Dosbarthwyd parseli bwyd i VAWDASV – 35 o gamerâu mewn mannau allweddol yn Abertawe a'r tu allan iddynt – Digwyddiadau ymgysylltu Pawennau ar Batrol mewn parciau
- Heddlu De Cymru
  - Gostyngiad yn y Galw
  - Cynnydd yn y Galw
  - Heriau Mewnol ac Allanol Newydd
  - Cyd-destun Plismona Newydd sy'n Esblygu
  - Gwreiddio Dysgu Drwy Adferiad
- Effaith COVID-19 (23 Mawrth 20 – 22 Mawrth 21) – Cynnydd mewn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (gyda'r mwyafrif yn gysylltiedig â COVID-19) – gweithio ar ymyrryd yn gynnar a defnyddio gorfodaeth fel dewis olaf – Niweidiau cudd e.e. Ni adroddwyd am drais domestig cymaint
- Cyfanswm Troseddau a Gofnodwyd Dros Amser – sut roedd troseddau'n symud o le i le mewn perthynas â'r cyfyngiadau symud
- Mannau lle ceir llawer o droseddu
  - Cydlyniant – Llais Cymru
  - Protestiadau – Mae Bywydau Du o Bwys (BLM), Lladd y Bil ac Adennill y Strydoedd
  - SA1 / Traethau / Mannau allweddol
  - Effaith Digartrefedd mewn Llety Dros Dro
  - Rheoliadau COVID-19 – y 4 'E'
  - Busnes Dyddiol – VAWDASV/Camddefnyddio Sylweddau/Troseddau Casineb
- Heriau
  - Partneriaeth
  - Canlyniadau Ymarferol Newid Rheoliadau
  - Ymateb Cymesur ond Cadarn
  - Caniatâd
  - Lles

    - Adfer
- Ystadegau Perfformiad a Throseddau
    - Trais yn erbyn Menywod a Merched
    - Troseddau Casineb
    - YMGYRCH SCEPTRE – Troseddau/Digwyddiadau sy'n cynnwys cyllyll
    - Masnachu Cyffuriau
- Y dyfodol
    - Adfer
    - Cadwch y Darnau Da
    - Y 12 mis nesaf - Heriau ar y Cyd

Roedd y cwestiynau a'r trafodaethau'n canolbwyntio ar y canlynol:

- Strategaeth Gymunedol Abertawe Mwy Diogel – y broses ar gyfer ymgynghori ar y strategaeth a'i hadnewyddu
- Profiad ym maes torri rheolau a rheoliadau COVID-19 - nodwyd mai'r brif broblem oedd ymgynnull dan do - cyflwynwyd 846 o hysbysiadau o gosb benodol am ymgynnull dan do
- Effaith COVID-19 ar drosedd ac anhrefn – clywyd am ymgysylltu ar-lein, gosodwyd camerâu mewn mannau lle mae trosedd ac anhrefn yn digwydd yn gyson
- Dwyn Cŵn – nid oedd yn ymddangos bod cynnydd yn nifer y cŵn a gafodd eu dwyn yn Abertawe, yn groes i amgyffrediad y cyhoedd – roedd menter Pawennau ar Batrol yn tawelu meddyliau perchnogion cŵn ar hyn
- Paratoadau wrth i'r cyfyngiadau symud ddod i ben ac effeithiau posib hynny – sefydlu clybiau ieuenctid
- Cynnydd mewn dwyn trawsnewidwyr catalytig – dywedwyd wrthynt am weithred i sicrhau bod prosesau cywir ar gyfer trafod nwyddau o'r fath yn cael eu dilyn
- Cynnydd mewn fandaliaeth mewn rhai ardaloedd – ffocws y grŵp datrys problemau lleol
- Yfed a gyrru/ymddygiad gwrthgymdeithasol ar lan y môr/partïon ar y traeth - gwydr ar y traeth – pwerau posib i atal problemau
- Gorchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus - yn ddatrysiad posib ond dylid bod yn ofalus nad yw'n symud pobl yn unig ac yn symud y broblem i rywle arall
- Mynd i'r afael â Throseddau Casineb – mae Swyddogion Troseddau Casineb penodedig sy'n cysylltu â chydlyniant
- Ofn yr heddlu
- Arddangosiadau cyhoeddus yn Abertawe - wedi'u plismona'n heddychlon lle'u trefnwyd yn gywir a chadwyd a phellter cymdeithasol
- Parhad Arolygwyr yr Heddlu a chyfathrebu ag Aelodau Lleol i ddatblygu perthnasau
- Pwerau Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu – natur y rôl a phwerau ychwanegol a roddwyd y tu allan i Gymru
- Gweithredu yn erbyn y rheini sy'n byw oddi ar enillion anfoesol
- Ariannu Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel - nodwyd nad oes cyllid wedi'i neilltuo, ond derbyniwyd rhai grantiau gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

- Cydbwysedd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a Swyddogion yr Heddlu
- Adrodd ar wybodaeth/rwydwaith o ddata
- Darparu allgymorth ar-lein yn y dyfodol – cydbwysedd cymorth ar-lein ac wyneb yn wyneb, cafwyd rhai achosion lle'r oedd wyneb yn wyneb yn bwysig

Diolchodd y Cadeirydd i bawb a oedd yn bresennol.

**71 Adroddiadau Cynnydd y Panel Craffu Perfformiad: Yr Amgylchedd Naturiol (Y Cynghorydd Peter Jones, Cynullydd)**

Cyflwynodd y Cynghorydd Peter Jones, Cynullydd, adroddiad ar yr wybodaeth ddiweddaraf am y Panel Craffu Perfformiad - Yr Amgylchedd Naturiol.

Sefydlwyd y panel newydd ym mis Gorffennaf 2019 ac roedd wedi cyfarfod 5 gwaith yn ystod y cyfnod hwnnw. Byddai'n cyfarfod bob deufis yn y dyfodol.

Tynnwyd sylw at gyflawniadau'r paneli a'r gwaith a drefnwyd yn y dyfodol, yn enwedig canlyniadau cadarnhaol o graffu a arweiniodd at benodi Swyddog Dyletswydd Bioamrywiaeth Adran 6 ac Ecolegydd Cynllunio.

**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

**72 Aelodaeth Paneli a Gweithgorau Craffu.**

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad am aelodaeth paneli a gweithgorau craffu. Ni chafwyd unrhyw ddiwygiadau.

**Penderfynwyd** nodi'r adroddiad.

**73 Adolygiad Blynyddol o Rhaglen Waith Craffu ar Gyfer 2020/21.**

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad am Raglen Waith Craffu 2020/21.

Trefnwyd cyfarfod nesaf Pwyllgor y Rhaglen Graffu ar 15 Mehefin 2021. Y brif eitem a drefnwyd oedd Craffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

**Penderfynwyd** nodi'r adroddiad.

**74 Llythyrau Craffu.**

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad ar 'Llythyrau Craffu' er gwybodaeth.

**Penderfynwyd** y dylid nodi cofnod llythyrau'r Tîm Craffu.

**75 Dyddiad ac Amser Cyfarfodydd Paneli/Gweithgorau Sydd ar Ddod.**

**Nodwyd** dyddiadau ac amserau cyfarfod nesaf paneli/gweithgorau.

Daeth y cyfarfod I ben am 6.05 pm

**Cadeirydd**